Canllawiau ynghylch Fforymau Mynediad Lleol: 3

# Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol

## Cyngor ar eu cynhyrchu a'u cynnwys

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw cynghorwr statudol y llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r wlad a dyfroedd ei glannau. Gyda English Nature a Scottish Natural Heritage, mae CCGC yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer Prydain Fawr ac, yn rhyngwladol, drwy'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur.

CCC 202 2002 1.5k

Argraffwyd gan: Zenith Media

Canllawiau ynghylch Fforymau Mynediad Lleol: 3

# Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol

## Cyngor ar eu cynhyrchu a'u cynnwys

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

**Rhestr Gyfeirio o Gynnwys Awgrymedig Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol**

Rhagair gan Gadeirydd y Fforwm
Rhagair gan Ysgrifennydd y Fforwm
Cyflwyniad
Adolygu'r flwyddyn
- Adrodd ar y Swyddogaeth Statudol
- Materion eraill dan ystyriaeth

Pwyllgorau'r Fforwm
Rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod
Atodiad I –Manylion am yr awdurdod penodi
Atodiad II – Map o ardal y Fforwm
Atodiad III – Manylion am gyfarfodydd
Atodiad IV - Manylion am recriwtio
Atodiad V - Manylion am aelodaeth

# Cynnwys


## Rhan I Gwybodaeth gefndirol

1. Cyflwyniad i'r canllawiau . . . . . . 6
2. Pwrpas yr adroddiad blynyddol . . . . . . 7
3. Y broses . . . . . . 7

## Rhan II Corff yr adroddiad

4. Rhagair . . . . . . 9
5. Cyflwyniad i'r adroddiad blynyddol . . . . . . 9
6. Adolygu'r flwyddyn . . . . . . 10
    6.1. Adrodd ar y swyddogaeth statudol . . . . . . 10
    6.2. Materion eraill dan ystyriaeth . . . . . . 12
7. Pwyllgorau'r Fforwm . . . . . . 12
8. Rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod . . . . . . 13

## Rhan III Atodiadau

9. Atodiad I -Manylion am yr awdurdod penod . . . . . . 15
10. Atodiad II – Map o ardal y Fforwm . . . . . . 15
11. Atodiad III - Manylion am gyfarfodydd . . . . . . 15
12. Atodiad IV - Manylion am recriwtio . . . . . . 15
13. Atodiad V - Manylion am aelodaeth . . . . . . 17

Darllen pellach . . . . . . 18

# Rhan I - Gwybodaeth gefndirol

## 1. Cyflwyniad i'r canllawiau

Yn y ddogfen hon ceir canllawiau Cyngor Cefn Gwlad Cymru ynghylch cynhyrchu a chynnwys Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol. Mae'n debyg i'r canllawiau dros dro a gyhoeddwyd yn 2003, ond gydag ychydig o newidiadau.

Yn unol â rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru[1] mae'n ofynnol i awdurdodau penodi baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer pob Fforwm Mynediad Lleol y maent yn gyfrifol amdano cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Nodir y rheoliad perthnasol isod.

**Rheoliad 16 Adroddiadau blynyddol**

(1) Rhaid i awdurdod penodi baratoi a chymeradwyo, mewn perthynas â phob fforwm y mae'n awdurdod penodi idoo, adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Mawrth ym mhob blwyddyn.

(2) Rhaid i adroddiad blynyddol a baratoir o dan baragraff (1) gynnwys -

(a) gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad y fforwm o'i swyddogaethau yn ystod y cyfnod o 12 mis yn diweddu ar y dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1); a

(b) rhaglen waith, y cytunwyd arni gan y fforwm a'r awdurdod penodi, y mae'r fforwm yn bwriadu ymgymryd â hi yn ystod y 12 mis sy'n dechrau yn union ar ôl y dyddiad hwnnw.

(3) Rhaid sicrhau bod copi o'r adroddiad blynyddol, wedi iddo gael ei gymeradwyo, ar gael ar gyfer archwiliad gan aelodau o'r cyhoedd yn swyddfeydd yr awdurdod penodi yn ystod oriau swyddfa arferol yn rhad ac am ddim.

(4) Rhaid i awdurdod penodi, ar gais unrhyw aelod o'r cyhoedd, ddarparu copi i'r person hwnnw o unrhyw adroddiad blynyddol sydd wedi'i baratoi a'i gymeradwyo o dan y Rheoliad hwn, neu unrhyw ran ohono, pan delir cost y postio ac unrhyw swm pellach nad yw'n fwy na 10 ceiniog y tudalen y bydd yr awdurdod penodi yn gofyn amdano

1 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cymru) (Fforymau Mynediad Lleol) 2001.

## 2. Pwrpas yr adroddiad blynyddol

Bydd sawl pwrpas i'r adroddiad blynyddol:

**a) Cofnod cryno o waith y flwyddyn flaenorol.**
Bydd cofnodion o gyfarfodydd unigol a dogfennau eraill a gynhyrchwyd yn rhoi mwy o fanylion ond bydd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi gwaith y Fforwm Mynediad Lleol

**b) Cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.**
Hwn fydd y cynllun a gytunwyd rhwng y fforwm a'r awdurdod penodi, yn unol â rheoliad 16(2)(b). Cydnabyddir y gall blaenoriaethau newidiol a phwysau gwaith arall olygu na ellir glynu'n llwyr wrth y cynllun.

**c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'.**
Rhaid i'r adroddiad blynyddol, yn statudol, fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd a rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei brynu. Felly, bydd o fantais i'r fforwm a'r awdurdod penodi os yw'n cael ei gyflwyno'n dda ac yn cyfleu delwedd 'broffesiynol'. Yn benodol, dylid ystyried defnyddio lliw, gan gynnwys ffotograffau, yn enwedig ar y clawr.

## 3. Y broses

Er bod y rheoliadau'n mynnu bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i gymeradwyo gan yr awdurdodau penodi, mae'n bwysig bod y fforymau eu hunain yn ymwneud â'r broses ac yn fodlon ar yr adroddiad terfynol.

Mewn rhai achosion, fe allai aelodau'r fforwm gytuno y dylai'r Awdurdod Penodi gynhyrchu adroddiad drafft i'w drafod a'i gymeradwyo gan y fforwm llawn.

Fodd bynnag, er mwyn cael cyfranogiad llawn gan y fforwm, fe fyddem yn awgrymu y dylid sefydlu pwyllgor o'r fforwm er mwyn gweithio gyda'r ysgrifennydd a staff priodol eraill o'r awdurdod penodi ar gynhyrchu'r adroddiad. Mae'n bwysig nad yw'r broses yn rhy hir, ac mae'r un mor bwysig i gynhyrchu adroddiad sy'n dderbyniol i'r awdurdod penodi ac aelodau'r fforwm ac sy'n cyflawni'r tri phwrpas a nodir yn adran 2 uchod.

Nodir proses awgrymedig ar y dudalen nesaf.

# CYNHYRCHU ADRODDIADAU BLYNYDDOL FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL

## PROSES AWGRYMEDIG

Er mwyn cadw'r broses dan reolaeth, mae'n bwysig bod y fforwm llawn yn cytuno i ddirprwyo cynhyrchu a phenderfyniadau cysylltiol i'r awdurdod penodi a phwyllgor y fforwm. Felly, erbyn i'r adroddiad gyrraedd y fforwm llawn fe ddylai dderbyn sêl bendith heb unrhyw newid pellach.

1. Mae aelodau pwyllgor y fforwm yn gytun. Dylid cytuno yn ystod cyfarfod llawn olaf y fforwm cyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

2. CYFARFOD CYNTAF Y PWYLLGOR – Pwyllgor y fforwm a staff yr awdurdod penodi yn cyfarfod i drafod y broses, amserlen, a chynnwys yr adroddiad blynyddol yn fras a chyfranogiad parhaus y pwyllgor cyn yr ail gyfarfod.

3. Yr awdurdod penodi yn paratoi drafft cyntaf yr adroddiad blynyddol gyda mewnbwn gan aelodau'r pwyllgor yn ôl a gytunwyd yn y cyfarfod cyntaf.

4. AIL GYFARFOD Y PWYLLGOR – Pwyllgor y fforwm a staff yr awdurdod penodi yn cyfarfod i drafod drafft cyntaf yr adroddiad.

5. Yr awdurdod penodi yn newid yr adroddiad fel y bo'n briodol, eto gyda mewnbwn gan aelodau'r fforwm yn ôl a gytunwyd yng nghyfarfod y pwyllgor.

6. YR ADRODDIAD YN MYND I'R FFORWM LLAWN AR GYFER CYTUNDEB – Yn ddelfrydol, dylai hyn ddigwydd yn ystod y cyfarfod cyntaf ar ôl 1 Ebrill.

7. Unrhyw newidiadau yn cael eu cytuno mewn cyfarfod o'r fforwm llawn a'r adroddiad yn cael ei gymeradwyo gan yr awdurdod penodi.

8. Copi o'r adroddiad blynyddol yn cael ei anfon at Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn unol â gofyniad rheoliad Fforymau Mynediad Lleol 17(b).

9. Dosbarthu copïau o'r adroddiad blynyddol fel y bo'n briodol. Er enghraifft:
   - aelodau Fforymau Mynediad Lleol
   - llyfrgelloedd lleol
   - swyddfeydd awdurdodau lleol dosbarth
   - cynghorau cymuned
   - aelodau/cyfarwyddwyr awdurdodau a staff perthnasol eraill
   - ar wefan yr awdurdod penodi

# Rhan II - Corff yr adroddiad

## 4. Rhagair

Awgrymir y dylid cynnwys rhagair mewn dwy ran. Un adran yr un i gael ei hysgrifennu gan:

a) ysgrifennydd y fforwm ar ran yr awdurdod penodi; a

b) cadeirydd y fforwm ar ran y fforwm.

Fe allai pob un o'r adrannau hyn fod yn drosolwg o brofiadau'r flwyddyn faenorol a'r dyheadau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

## 5. Cyflwyniad i'r adroddiad blynyddol

Bydd yn bwysig o ran cyflwyniad i gynnwys adran fer sy'n amlinellu cefndir y Fforwm Mynediad Lleol.

**Enghraifft:**

### CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol xxxxx ym mis Mai 2002. Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sefydlu'r fforwm yn unol â gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Swyddogaeth statudol y fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal i bwrpasau hamdden yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal, gan roi sylw i anghenion rheoli tir a harddwch naturiol yr ardal. Mae holl gyfarfodydd y fforwm yn agored i'r cyhoedd.

# 6. Adolygu'r flwyddyn

## 6.1 Adrodd ar y swyddogaeth statudol

Dylai'r adran hon o'r adroddiad blynyddol fod yn berthynol i berfformiad y Fforwm Mynediad Lleol o ran ei swyddogaeth statudol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth. Y swyddogaeth hon, yn ôl Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yw:

> 94. (4) Swyddogaeth fforwm mynediad lleol, mewn perthynas â'r ardal sy'n berthynol iddo, yw cynghori-
>
> (a) yr awdurdod penodi.
> (b) unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Rhan I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno,
> (c) os yw'r awdurdod penodi yn awdurdod Parc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ar gyfer unrhyw ran o'r tir hwnnw , ac
> (d) unrhyw gyrff eraill a ragnodir.
>
> ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno i bwrpasau hamdden awyr-agored a mwynhau'r ardal.
>
> 94(5) Bydd y cyrff a nodir ym mharagraffau (a) i (d) yn is-adran (4), yn rhoi sylw, mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan fforwm mynediad lleol o dan yr is-adran hon neu unrhyw ddarpariaeth gan y Ddeddf hon.

Ni fyddem yn cynghori bod angen rhoi sylw yn yr adroddiad blynyddol i bob mater a drafodir gan y Fforwm Mynediad Lleol – mae'n well rhoi sylw i fân faterion, yn enwedig rhai o natur weinyddol, yng nghofnodion pob cyfarfod yn unig. Fodd bynnag, dylai'r fforwm a'r awdurdod penodi gytuno pa faterion sy'n ddigon pwysig i'w cynnwys yn yr adroddiad. Yn gyffredinol, dylai hyn ganolbwyntio yn benodol ar faterion lle mae'r fforwm wedi rhoi cyngor i un neu fwy o'r rhai y mae'n eu cynghori yn statudol. Mae'n bwysig rhoi ymateb yr ymgynghorai statudol, er mae'n bosibl y bydd yn rhy hwyr i gynnwys ymateb i gyngor a roddwyd tua diwedd y flwyddyn adrodd yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno. Mewn achosion o'r fath, bydd angen trefnu bod y cyngor yn cael ei gynnwys eto, ynghyd â'r ymateb, yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Byddem yn awgrymu un o ddwy ffordd o drefnu'r adran hon.

**a) Fel rhestr ag is-adrannau**
Mantais y dull hwn yw ei fod yn hawdd ei ddefnyddio a chyfeirio at wahanol bethau. Byddem yn awgrymu gosod y pynciau yn ôl trefn y dyddiadau neu drefn yr wyddor.

**Enghraifft 1:**

## CYNGOR A RODDWYD GAN Y FFORWM 2002-03

**Pwnc a Ystyriwyd**: Mynediad i Bobl Anabl
**Dyddiad(au) a Ystyriwyd**: 23 Gorffennaf 2002
**Cyngor a Roddwyd i**: Gyngor Bwrdeistref Sirol
**Cyngor a Roddwyd gan y Fforwm**: Wrth osod celfi newydd ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, neu newid celfi sy'n bodoli, dylid rhoi ystyriaeth o'r mwyaf i anghenion pobl ag anableddau. Dylai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol baratoi dogfen bolisi ar y mater, mewn ymgynghoriad â'r fforwm a chyrff ac unigolion priodol eraill
**Ymateb**: Cytunwyd mewn egwyddor gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol a fydd yn paratoi dogfen bolisi ac yn adrodd yn ôl yn rheolaidd

**Pwnc a Ystyriwyd**: Rheoliadau ynghylch Mapiau Dros Dro ar gyfer Cefn Gwlad Agored a Thir Comin
**Dyddiad(au) a Ystyriwyd**: 19 Medi 2002
**Cyngor a Roddwyd i:** Lywodraeth Cynulliad Cymru
**Cyngor a Roddwyd gan y Fforwm**: Sylwadau amryfal ynghylch y drefn.
**Ymateb**: Roedd y rheoliadau terfynol yn cynnwys rhai o'r newidiadau a awgrymwyd gan y Fforwm.

**b) Fel adroddiad testun**
Gan ddibynnu ar fedr y sawl sy'n ei ysgrifennu, gall fod yn gyflwyniad mwy bywiog.

**Enghraifft 2:**

## CYNGOR A RODDWYD GAN Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2002-03

**Mynediad i Bobl ag Anableddau**
Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf, bu'r fforwm yn ystyried anghenion pobl ag anableddau a chytunodd yn unfrydol y dylid dweud wrth yr Awdurdod ei fod o'r farn y dylid, pan fo celfi newydd neu gelfi amnewid yn cael eu gosod ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, roi ystyriaeth o'r mwyaf i anghenion pobl ag anableddau. Teimlai y dylai'r Cyngor Bwrdeistref Sirol baratoi dogfen bolisi ar y mater, mewn ymgynghoriad â'r fforwm. Cytunodd y Cyngor â hyn.

**Rheoliadau ynghylch Mapiau Dros Dro ar gyfer Cefn Gwlad Agored a Thir Comin**
Bu'r fforwm yn ystyried ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoliadau ar gyfer Mapiau Dros Dro yn ei gyfarfod ym mis Medi. Gwnaed amryw o sylwadau ar y drefn, gan gynnwys rhai a roddwyd yn y rheoliadau terfynol.

### 6.2. Materion eraill dan ystyriaeth

Mae'n fwy na thebyg na fydd llawer o'r eitemau a ystyrir gan Fforwm Mynediad Lleol yn arwain at gyngor yn cael ei gynnig gan y fforwm i unrhyw gorff. Gall un o ddau reswm fod yn gyfrifol am hyn:

a) nid yw'r fforwm yn dymuno rhoi unrhyw gyngor ynghylch pwnc penodol. Mae'n bwysig o hyd i eitemau pwysig yn y categori hwn gael eu cynnwys yn yr adroddiad fel y gall darllenwyr wybod fod y mater wedi cael ei ystyried; neu
b) bod yr eitem dan ystyriaeth yn gyflwyniad i'r Fforwm i bwrpasau hyfforddi / briffio.

**Enghraifft (gallai hyn gael ei drefnu fel adroddiad testun (gweler uchod)**

**MATERION ERAILL DAN YSTYRIAETH**

**Pwnc a Ystyriwyd**: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Fforymau Mynediad Lleol
**Dyddiad(au) a Ystyriwyd**: 23 Gorffennaf 2002
**Crynodeb**: Cyflwyniad gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru

**Pwnc a Ystyriwyd**: Map Drafft o Gefn Gwlad Agored a Thir Comin Cofrestredig
**Dyddiad(au) a Ystyriwyd**: 19 Medi 2002
**Crynodeb**: Bu'r fforwm yn ystyried y map o ran ei arwynebedd ond nid oedd yn dymuno gwneud unrhyw sylw.

## 7. Pwyllgorau'r Fforwm

Mae rheoliad Fforymau Mynediad Lleol 13 yn caniatáu ar gyfer sefydlu pwyllgorau fforwm. Dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys crynodeb byr priodol am ddyddiadau cyfarfodydd, cylch gwaith, aelodaeth, gwaith ac argymhellion pob cyfarfod pwyllgor.

**Enghraifft: (gallai hyn gael ei drefnu fel adroddiad testun (gweler uchod)**

**PWYLLGORAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL 20xx-20xx**

Pwyllgor Adroddiad Blynyddol

Cyfarfu'r is-bwyllgor Adroddiad Blynyddol ddwywaith, ar 21 Chwefror a 19 Mai. Bu'n cynorthwyo'r awdurdod penodi i gynhyrchu'r adroddiad hwn.

Pwyllgor Mynediad i Bobl ag Anableddau

Cyfarfu'r pwyllgor hwn dair gwaith, ar 22 Gorffennaf, 15 Awst a 19 Medi. Bu'n ystyried polisïau cyfredol yr awdurdod ar ddarparu mynediad i gefn gwlad ar gyfer pobl ag anableddau. Trafodwyd argymhellion y pwyllgor a chawsant eu cymeradwyo gan y fforwm llawn ar 27 Medi – gweler yr adran ar gyngor Fforymau Mynediad Lleol ar gyfer y manylion.

# 8. Y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

Yn unol â Rheoliad 16(2)(b) rhaid i adroddiad blynyddol Fforwm Mynediad Lleol gynnwys rhaglen o waith a gytunwyd rhwng y fforwm a'r awdurdod penodi ac y mae'r fforwm yn bwriadu ei wneud yn ystod y deuddeng mis yn dechrau'n syth ar ôl 31 Mawrth.

Mae'n bwysig bod rhaglen waith fforwm yn cynnwys eitemau agenda wedi'u cynnig gan aelodau'r fforwm eu hunain. Fodd bynnag, mae peth o waith y fforwm yn debygol o ddeillio o ymgynghori â chyrff eraill. Yn bennaf, y cyrff hyn fydd:

a) awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol;
b) Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
c) Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er mwyn gallu cynnwys y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sy'n dod yn yr adroddiad blynyddol, bydd hi'n ofynnol i'r cyrff hyn hysbysu ysgrifennydd y fforwm, yn ddelfrydol rhwng Ionawr a Mawrth, am eu cynlluniau i gyfeirio gwaith at y fforwm.

Yn bennaf, bydd y rhaglen waith gyhoeddedig yn cynnwys rhestr, ynghyd â gwybodaeth ychwanegol fel y bo'n briodol.

Mae enghraifft o gynllun gwaith i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar y dudalen nesaf.

**Enghraifft:**

## CYNLLUN GWAITH 2003 - 2004

(A) Eitemau y mae disgwyl i gyrff eraill eu cyfeirio at y Fforwm Mynediad Lleol.

### Awdurdod Lleol

**Strategaeth Seiclo**
Mae'r awdurdod yn cynhyrchu strategaeth seiclo, a bydd y fforwm yn cynnig cyngor.

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
Yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu Cynllun erbyn 2007. Bydd y fforwm yn cyfranogi trwy gydol y broses gynhyrchu.

**Adroddiad Blynyddol y Fforwm**
Bydd yr awdurdod yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer y fforwm. Bydd y fforwm yn cyfranogi trwy gydol y broses. Disgwylir y bydd pwyllgor o'r fforwm yn cael ei sefydlu er mwyn ystyried hyn.

### Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Symud Rhwystrau oddi ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ynghylch y rhain, ac amryw o reoliadau eraill yn Rhan II Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn ystod y flwyddyn.

### Cyngor Cefn Gwlad Cymru

**Mapiau Drafft o Gefn Gwlad Agored a Thir Comin**
Bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ymgynghori ynghylch y mapiau drafft ar gyfer ardal y fforwm yn ystod y flwyddyn. Fel ymgynghorai statudol, gwahoddir y fforwm i gynnig sylw ar y mapiau.

**Côd Cefn Gwlad Diwygiedig**
Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn adolygu Rheolau Cefn Gwlad yn sylweddol. Fe fyddant yn ymgynghori â'r fforwm ynghylch yr argymhellion.

(B) Eitemau a gynigiwyd gan aelodau'r fforwm ac eraill

**Rheoli Mynediad yn Nyffryn Llanfynwy**
Mae'r fforwm wedi sefydlu prosiect rhagbrofol i archwilio a chynghori ynghylch rheoli mynediad yn yr ardal hon.

**Mynediad i Bobl Anabl**
Bydd y fforwm yn trafod ac yn cynghori ynghylch gwella mynediad i bobl anabl yn yr ardal.

**Effeithiau Mynediad ar Gadwraeth Natur**
Bydd y fforwm yn ystyried effeithiau'r hawl mynediad newydd ar gadwraeth natur. Gobeithir cael siaradwr arbenigol i friffio'r fforwm ar y pwnc.

# Rhan III Atodiadau

Dylid rhoi manylion am yr awdurdod penodi, cyfarfodydd, y broses recriwtio ac aelodaeth, ynghyd â map o ardal y Fforwm Mynediad Lleol, yn yr atodiadau y tu cefn i'r adroddiad.

## 9. Atodiad I - Manylion am yr awdurdod penodi

Fe ddylai'r adran gryno hon o'r adroddiad roi manylion am yr awdurdod penodi. .

Dylid cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

Enw'r Awdurdod Penodi (awdurdodau os yw'n fforwm ar y cyd)
Manylion am yr Ysgrifennydd – enw a manylion cyswllt

## 10. Atodiad II – Map

Dylid cynnwys map sy'n dangos ardal y fforwm.

## 11. Atodiad III - Manylion am gyfarfodydd

Dylid rhestru dyddiadau a lleoliadau pob cyfarfod.

Enghraifft:

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd y cyfarfodydd a ganlyn, ac roedd pob un yn agored i'r cyhoedd:

24 Mai 2002 yn yr Hen Ysgol, Penbryna
28 Awst 2002 yn Swyddfeydd y Cyngor, Brynbach
30 Tachwedd 2002 yn yr Hen Ysgol, Penbryna
21 Chwefror 2003 yn Swyddfeydd y Cyngor, Brynbach.

## 12. Atodiad IV - Manylion am recriwtio

Bydd maint a chwmpas yr adran hon yn dibynnu ar a yw'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â blwyddyn pan fo holl aelodau'r fforwm yn cael eu recriwtio.

12.1. Adroddiadau Blynyddol yn ymwneud â blynyddoedd pan fo holl aelodau'r fforwm wedi cael eu recriwtio

Nodyn: Dylid cofnodi unrhyw newidiadau mewn aelodaeth sy'n digwydd y tu allan i'r broses recriwtio fforwm cyfan ym mharagraff 12.2. isod.

> Rheoliad 4(3)
>
> Mae aelodaeth person o fforwm yn parhau tan ddiwedd y cyfnod o 3 blynedd o ddyddiad cyfarfod cyntaf y fforwm, neu'r cyfryw gyfnod byrrach fel y'i nodir gan yr awdurdod penodi yn y llythyrau penodi y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), oni fydd aelodaeth y person hwnnw'n dod i ben yn unol â rheoliad 14.

Dylid nodi y dylai unrhyw aelod o'r fforwm a benodir yn ystod y cyfnod o dair blynedd fod â'r un dyddiad terfyn i'w aelodaeth â'r aelodau sy'n bodoli er mwyn i'r holl benodiadau i'r fforwm ddod i ben ar yr un dyddiad.

Mae'n bwysig fod recriwtio aelodau yn cael ei weld fel proses dryloyw ac agored. I'r perwyl hwn, bydd yn briodol i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion am y broses a ddefnyddiwyd gan yr awdurdod penodi i recriwtio'r aelodau mewn blynyddoedd pan benodir yr holl aelodau, sef:

a) pan fo'r fforwm yn cael ei sefydlu am y tro cyntaf

Felly, ar gyfer y mwyafrif o fforymau (h.y. y rhai a sefydlwyd cyn 31 Mawrth 2003) bydd y manylion yn adroddiad blynyddol 2002/03 a phob trydedd flwyddyn wedi hynny (h.y. 2005/06 a 2008/09 etc.).

Dylai'r adran hon gynnwys gwybodaeth am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod yna gydymffurfiaeth â rheoliad 7, sy'n amlinellu'r broses recriwtio statudol ar gyfer fforymau. Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r materion y dylid eu cynnwys.

**PENODI AELODAU'R FFORWM**

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r wybodaeth yr ydym yn argymell y dylid ei rhoi am bob adran o reoliad 7. Mae'n well ei chyflwyno ar ffurf testun yn hytrach na thabl..

| Rheoliad | Yr Adroddiad Blynyddol i gynnwys: |
|---|---|
| 7. Wrth ystyried pa bersonau i'w penodi yn aelodau o fforwm, rhaid i awdurdod penodi: | |
| (a) ymgynghori ag unrhyw unigolion a chyrff sydd â buddiant yn swyddogaethau'r fforwm y gwêl yn dda; | rhestr o'r unigolion a'r sefydliadau yr ymgynghorwyd â hwy; |
| (b) rhoi hysbyseb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y fro y mae'r fforwm ynddi yn rhoi cyfle i bersonau fynegi diddordeb mewn dod yn aelod o fforwm; | (i) enw(au) y papur(au) newydd lle cafwyd hysbyseb;<br>(ii) dyddiad cyhoeddi'r hysbyseb(ion); a<br>(iii) y dyddiad cau a roddwyd ar gyfer derbyn mynegiant o ddiddordeb. |
| (c) gwahodd unrhyw gyrff sydd â buddiant yn swyddogaethau'r fforwm i enwebu person i'w ystyried gan yr awdurdod penodi ar gyfer aelodaeth o'r fforwm; | rhestr o'r sefydliadau a wahoddwyd i enwebu |
| (d) cymryd i ystyriaeth ei bod yn fanteisiol penodi personau sy'n byw yn ardal y fforwm, neu sydd fel arall yn gyfarwydd iawn â hi, neu y mae ganddynt fuddiannau eraill sy'n berthnasol iddi; | (i) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliad hwn.<br>(ii) manylion byr am unrhyw broblemau a gafwyd wrth ddod o hyd i aelodau addas sy'n bodloni'r meini prawf hyn. |
| (e) sicrhau bod aelodaeth y fforwm yn llwyddo i gael cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau defnyddwyr hawliau tramwy lleol neu'r hawliau mynediad a roddir gan adran 2(1) o'r Ddeddf a pherchenogion a meddianwyr tir mynediad neu dir y mae hawliau tramwy lleol drosto yn bodoli; | ((i) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliad hwn.<br>ion.<br>(ii) manylion byr am unrhyw broblemau a gafwyd wrth ddod o hyd i aelodau addas sy'n bodloni'r meini prawf hyn.<br>(iii) crynodeb byr o gydbwysedd y bobl ar y fforwm mewn perthynas â phob un o'r categorïau datganedig. |
| (f) rhoi sylw i'r angen i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gydbwysedd teg rhwng personau o ryw, hil, oedran, anabledd a nodweddion eraill gwahanol. | (i) crynodeb byr o'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliad hwn.<br>(ii) manylion byr am unrhyw broblemau a gafwyd wrth ddod o hyd i aelodau addas sy'n bodloni'r meini prawf hyn.<br>(iii) crynodeb byr o gydbwysedd y bobl ar y fforwm mewn perthynas â phob un o'r categorïau datganedig. . |

12.2. Adroddiadau blynyddol yn ymwneud â blynyddoedd pan NA chafodd yr aelodaeth gyfan ei recriwtio

Yn ystod dwy flynedd o bob tair, mae'n debygol taw dim ond ychydig o newidiadau a gafwyd yn aelodaeth y rhan fwyaf o'r Fforymau Mynediad Lleol. Yn ystod y blynyddoedd hyn dylai'r adroddiad gynnwys ond adran fer sy'n amlygu'r aelodau hynny a adawodd yn ystod y flwyddyn a'r aelodau newydd hynny sydd wedi ymuno. Os yw'n briodol, dylid nodi'r rhesymau pam y gadawodd unrhyw aelodau'r fforwm a pham y gwahoddwyd unrhyw aelodau newydd i ymuno. Hefyd, dylai'r adroddiad gynnwys manylion am unrhyw ymgynghori a gafwyd cyn penderfynu pa aelodau newydd y dylid eu gwahodd.

## 13. Atodiad V - Manylion am aelodaeth

Dylai'r adran hon gynnwys manylion cryno am yr holl bobl sydd wedi gwasanaethu fel aelodai o'r fforwm yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dylid rhestru enwau a buddiannau perthnasol – er ei bod yn hanfodol cael caniatâd yr holl aelodau yn gyntaf cyn cynnwys manylion amdanynt. Yn ogystal, dylid amlygu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd..

| Enw | Dyddiad y Penodiad i'r Fforwm | Dyddiad Terfynu Aelodaeth o'r Fforwm | Manylion Cefndirol yn Gryno |
|---|---|---|---|
| Joe Bloggs (Cadeirydd) | 3 Ebrill 02 | Amherthnasol | Ffermwr, Aelod o'r NFU a Chymdeithas Porwyr Llantwyn |
| John Evans | 3 Ebrill 02 | 4 Awst 02 | Rheolwr canolfan addysg awyr agored Llanmelyn, Cerddwr brwdfrydig ac aelod o glwb ogofa lleol. |
| Etc.... | | | |

# Darllen pellach

**Adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol**
Mae'n ofynnol trwy statud i bob awdurdod penodi gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth. Gellir cael y rhain gan Ysgrifennydd y fforwm perthnasol. Hefyd, mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd unigol o'r fforwm ar gael.

**Deddf Llywodraeth**
Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; HMSO Cyf. (2000).

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001; HMSO Cyf. (2002).

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Canllawiau Ynghylch Fforymau Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Canllawiau ynghylch Cyngor ac Arferion Gorau (2002).

Canllawiau Ynghylch Fforymau Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Fforymau Mynediad Lleol (2002).

Adroddiad Blynyddol a Chyfeirlyfr Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru 2003 (2004)